

Adrodd a Chymorth

Sut mae adrodd yn gweithio a sut byddwn ni'n eich cefnogi

Pan fyddwch chi'n defnyddio'r gwasanaeth Adrodd a Chymorth i roi gwybod i ni am rywbeth sydd wedi digwydd, dyma sut y byddwn ni'n eich cefnogi chi:

Myfyrwyr yn cyfeirio mewn aelodau o staff

Derbynnir yr atgyfeiriad gan y Tîm Ymyrraeth Cymorth Myfyrwyr

Bydd ymarferydd arbenigol sy'n ymwybodol o drawma yn cysylltu â chi drwy Student Connect neu'r cyfeiriad e-bost o'ch dewis

Os yw'r atgyfeiriad yn ymwneud ag aelod o staff a enwir, ymgynghorir ag Adnoddau Dynol fel y bo'n briodol

Byddwn yn trefnu apwyntiad ar-lein neu wyneb yn wyneb i gynnig cefnogaeth gyfrinachol, dosturiol, ac anfeirniadol

Bydd cefnogaeth yn cael ei theilwra i'ch anghenion a gall gynnwys apwyntiadau dilynol, cymorth ymarferol, neu atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol gyda'ch cydsyniad